# Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol

# Cofnodion

**Teitl y cyfarfod:**

Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol

**Lleoliad:** Cyfarfod Microsoft Teams

**Dyddiad y Cyfarfod:** 25 Ebrill 2022

**Yn bresennol:**

Zoe Henderson, CNC (Cadeirydd)

Bob Vaughan, CNC

Dennis Matheson, TFA

Marc Williams, CNC

James Ruggeri, HCC

Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru

Einir Williams, Cyswllt Ffermio

Shane Thomas, Ffederasiwn Pysgotwyr Caerfyrddin

Geraint Hamer, Llywodraeth Cymru

Creighton Harvey, Ffederasiwn Pysgotwyr Caerfyrddin

Chris Thomas, CNC

Fraser McAuley, CLA

Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru

Mathew Walters, Llywodraeth Cymru

Polina Cowley, Llywodraeth Cymru

Ruth Johnston, CNC

Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru

Charlotte Priddy, AHDB

Nichola Salter, CNC

**Unigolion ychwanegol a oedd yn bresennol:**

Ioan Williams, CNC (Eitem 3)

**Ysgrifenyddiaeth:**

Bronwen Martin, CNC

**Ymddiheuriadau:**

Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru

Sarah Hetherington, CNC

Sarah Jones, Dŵr Cymru

Kate Snow, United Utilities

## Eitem 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a datganiadau o fuddiant

1. Croesawodd Zoe Henderson, CNC, bawb i'r cyfarfod dros Microsoft Teams gan nodi'r ymddiheuriadau. Sylwer bod y cyfarfod yn cael ei recordio ar gyfer y cofnodion ac y bydd y ffeil ddigidol yn cael ei dileu pan fydd cofnodion y cyfarfod wedi'u cymeradwyo.

2. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn perthynas â'r eitemau ar yr Agenda.

    - D.S.: Mae pob aelod o'r grŵp eisoes wedi llenwi ffurflenni datganiad o fuddiant ond dylent hefyd ddatgan a oes ganddynt fuddiant mewn unrhyw beth ar yr agenda.

3. Croesawodd Zoe y gwestai heddiw, Ioan Williams (CNC), i'r cyfarfod.

## Eitem 2 Adolygu Cofnodion

4. Cadarnhaodd y Cadeirydd y bydd cofnodion y cyfarfod yn cael eu hadolygu a'u cymeradwyo'n ffurfiol gan y grŵp ac yna'n cael eu cyhoeddi ar wefan CNC lle byddant ar gael i'r cyhoedd. Mae'n bwysig felly fod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfodydd.

5. Adolygodd y grŵp gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2022. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau nac awgrymiadau ar gyfer gwelliannau mewn perthynas â chofnodion cyfarfodydd mis Mawrth.

## Eitem 3 Cyflwyniad: Gwelliannau ansawdd dŵr ar gyfer Prosiect Afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig

6. Ymunodd Ioan Williams, CNC, â'r cyfarfod i roi trosolwg o'r gwelliannau ansawdd dŵr ar gyfer Prosiect Afon ACA yn ogystal â'r wybodaeth ddiweddaraf am greu'r Byrddau Rheoli Maethynnau. Ioan yw'r Arweinydd ar gyfer 'Ffrwd Waith 3' Prosiect Afonydd ACA, Gwelliannau Ansawdd Dŵr.

7. Dechreuodd Ioan drwy amlinellu'r Asesiad Cydymffurfiaeth o ACA Afonydd Cymru yn erbyn Targedau Ffosfforws. Diogelir pob Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, fel y’u diwygiwyd (y Rheoliadau Cynefinoedd). Mae CNC wedi pennu safonau ffosffad newydd ar gyfer ACA afonol yn sgil y canllawiau Monitro Safonau Cyffredin diwygiedig a ddiweddarwyd gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC). Mae’r Targedau 50%-80% yn llymach na’r rhai blaenorol. Mewn asesiad cydymffurfiaeth a gynhaliwyd gan CNC gan ddefnyddio’r safonau, canfuwyd methiant i gyrraedd y targedau yn afonydd Dyfrdwy, Cleddau, Gwy, Teifi ac, yn fwyaf arwyddocaol, yn afon Wysg.

8. Mae’r targedau ffosffad llymach yn sgil tystiolaeth newydd am effaith Ffosfforws ac yng nghyd-destun newid hinsawdd. Mae Adolygiad Tystiolaeth gan CNC yn dangos bod mwy na 60% o afonydd yn methu. Dangosodd Ioan fap yn dangos lleoliad pob un o'r 9 afon ACA yng Nghymru; afon Dyfrdwy (methu), afon Gwyrfai (pasio), afon Glaslyn (pasio), afon Eden (pasio), afon Gwy (methu), afon Wysg (methu), afon Teifi (rhan isaf yn methu), afon Tywi (pasio) ac afonydd Cleddau (rhai methiannau).

9. Disgrifiodd Ioan pam mae ffosfforws yn bwysig a beth yw'r broblem. Mae ffosfforws yn faethyn planhigion hanfodol a chryf. Mae'n hanfodol i ecosystemau ond mae gormod yn beth drwg. Mae gormod o ffosfforws:

   - yn achosi newidiadau niweidiol i ecosystemau afonydd, gan ysgogi twf rhywogaethau niwsans fel algâu
   - yn arwain at niweidio neu golli rhywogaethau pwysig megis crafanc y dŵr
   - yn gallu achosi i raeanau afonydd fynd yn ddadocsigenedig, gan ladd infertebratau afonydd
   - yn cynyddu’r risg o ordyfiant algâu, yn enwedig mewn cyfuniad â phwysau eraill fel sychder neu golli cysgod ar afonydd
   - yn aml yn arwydd o broblemau eraill ansawdd dŵr, fel amonia neu lefelau isel o ocsigen

10. Soniodd Ioan fod gwaith yn mynd rhagddo gyda Dŵr Cymru yn edrych ar ddosrannu ffynonellau ar sail dalgylch cyfan. Nid yw'r canlyniadau wedi'u cyhoeddi eto ond mae rhai canfyddiadau cychwynnol.

11. Un neges allweddol yw y cytunir yn eang mai ffosfforws yw'r maetholion sydd fwyaf tebygol o niweidio systemau dŵr croyw. Mae newid hinsawdd yn cynyddu'r risgiau hyn oherwydd bod mwy o sychder a heulwen yn darparu amodau tyfu gwell ar gyfer algâu.

12. Rhoddodd Ioan drosolwg byr o'r Prosiect Afonydd ACA sy'n cynnwys 5 ffrwd waith:

    1. Cyngor a datganiad sefyllfa
    2. Safonau / cydymffurfiaeth
    3. Gwelliannau ansawdd dŵr
    4. Monitro a thystiolaeth

5. Trwyddedu a gwastraff

   Hefyd, grŵp goruchwylio Llywodraeth Cymru.

13. Defnyddiodd Ioan fapiau i ddangos y gwahanol dargedau yn afon Wysg ac yna rhoddodd drosolwg o rai o ganfyddiadau cyffredinol pob un o'r 9 Afon ACA.

14. I grynhoi, o'r 107 o gyrff dŵr a aseswyd, roedd 42 (39%) wedi pasio'u targedau ffosffad ACA a 65 (61%) wedi methu. Yn y cyrff dŵr a gyrhaeddodd y safon, cyfyngedig yw eu gallu i ymdopi â lefelau uwch o ffosffadau. Os caniateir i lefelau ffosffad godi, mae perygl y gallai'r cyrff dŵr fethu. Does dim hyblygrwydd i ymdopi â lefelau uwch yn y cyrff dŵr sydd eisoes yn methu'r targed. Bydd cynnydd pellach mewn ffosffad yn achosi dirywiad pellach yng nghyflwr yr ACA.

15. Rhoddodd Ioan drosolwg a diweddariad byr ar y Byrddau Rheoli Maethynnau:

- Bydd Bwrdd ar gyfer pob Afon ACA
- Beth fyddan nhw'n ei wneud? – cydweithio rhwng partneriaid (ffermwyr, pysgotwyr, y cyhoedd ac ati) a chyflwyno Cynllun Rheoli Maethynnau fel dull o reoli ffosffad yn y dalgylch
- Canolbwyntio ar ACA sy'n methu yn gyntaf
- Bydd bwrdd afon Wysg yn cael ei gadeirio gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (mae pob un arall yn cael ei gadeirio gan Awdurdodau Lleol)
- Strwythur, Cylch Gorchwyl
- Grwpiau Rhanddeiliaid / Technegol
- Sut gall Is-grŵp WLMF gyfrannu?

16. Dywedodd Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru, fod casglu data, a monitro yn allweddol a bod y targedau wedi'u tynhau rhwng 50-80%. Os yw 61% o'r cyrff dŵr wedi methu ar y targedau newydd hyn, mae popeth yn edrych yn negyddol oherwydd bod y targedau wedi'u tynhau a gallai hynny fod yn cuddio gwelliannau sydd eisoes wedi digwydd o bosibl. Gofynnodd Bernard pa ganran fyddai wedi methu o ddefnyddio'r hen dargedau. Dywedodd Ioan nad oedd yn gwybod y ffigurau hyn ond y byddai'n ymchwilio ac yn dod yn ôl at Bernard. Mae'r targedau wedi'u tynhau o ganlyniad i gyngor gan y JNCC sy'n goruchwylio'r cyrff amgylcheddol yn y DU ac mae CNC wedi gweithredu ar y dystiolaeth a'r canllawiau hyn. Mae'n bwysig iawn ein bod yn bwrw ymlaen â gwelliannau ansawdd dŵr.

17. Soniodd Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru, ei fod yn Cadeirio'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Mesurau Amgen sydd wedi bod yn trafod yn ddiweddar a fyddai'n fuddiol cynnwys ffosffad o fewn y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol – gofynnodd Chris i Ioan am ei farn ar y cynnig hwn. Dywedodd Ioan y byddai'n croesawu pe bai'r Rheoliadau'n cynnwys yr holl faethynnau, gan gynnwys ffosffadau.

18. Gofynnodd Fraser McAuley, CLA, i Ioan a ellid dosbarthu copi o'r cyflwyniad oherwydd ei fod yn glir iawn o ran helpu i ddeall y sefyllfa a'r broses. Cytunodd Ioan y gellid rhannu'r cyflwyniad. Gofynnodd Fraser a fydd y Byrddau Rheoli Maethynnau (NMBs) yn rhoi arweiniad i Adrannau Cynllunio Awdurdodau Lleol ynghylch yr hyn sy'n bosibl o fewn y dalgylchoedd hynny ac a fyddant yn darparu cyfrifianellau maethynnau y gall datblygwyr eu defnyddio. Dywedodd Ioan na fydd canllawiau cynllunio yn cael eu gwneud gan yr NMB, ond yn hytrach drwy'r Prosiect Afonydd ACA. Dywedodd Ioan fod rhai diweddariadau a newidiadau wedi bod a fydd i'w gweld yn fuan ar wefan CNC. O ran cyfrifianellau maethynnau, mae Cyngor Sir Gâr wedi datblygu un eu hunain yn seiliedig ar fodel Natural England. Mae CNC yn aros i weld y ddogfen dechnegol a'r data y tu ôl iddi er mwyn mynegi barn a fyddai'n addas i'w defnyddio fel cyfrifiannell maethynnau Cymru gyfan.

***PG 01 Ebrill: Bronwen Martin, CNC, i ddosbarthu copi o gyflwyniad Ioan Williams, CNC.***

19. Soniodd Zoe ei bod hi'n gweithio yn y Gogledd ac yn ymwybodol bod dalgylchoedd eraill hefyd yn cael problemau. Gofynnodd Zoe sut mae CNC yn sicrhau bod cydgysylltu da ar draws pob afon, nid dim ond afonydd ACA. Dywedodd Ioan mai rhan o waith cynharach oedd casglu gwybodaeth at ei gilydd ar gyfer pob dalgylch a rhoddodd enghraifft Dalgylch Cleddau a oedd yn cynnwys prosiectau allweddol (e.e., Prosiect Llaeth, Prosiect Pedair Afon LIFE ac ati), Cynlluniau Adfer Afonydd, Cytundebau rheoli tir, gwaith WfD, partneriaeth Cleddau Reaches ac ati.

20. Dywedodd Einir Williams, Cyswllt Ffermio, y byddai cydweithwyr Cyswllt Ffermio fwy na thebyg yn elwa ar glywed y cyflwyniad hwn a gofynnodd a oes modd cysylltu ag Ioan i geisio trefnu rhywbeth. Dywedodd Ioan y byddai'n hapus i gyflwyno'r cyflwyniad neu gyfarfod wyneb yn wyneb.

***PG 02 Ebrill: Bronwen Martin, CNC, i rannu manylion cyswllt Ioan Williams gyda'r grŵp.***

21. Soniodd Dennis Matheson, TFA, am brosiect hanesyddol a oedd yn edrych ar geisio lleihau faint o ffosffad sy'n mynd i afonydd. Soniodd Dennis hefyd fod ffermwyr yn y gorffennol wedi cael cyngor ar faint o faethynnau i'w taenu ar eu tir gan gynnwys slag a chalch sylfaenol. Cynhaliwyd astudiaeth gan yr Athro Wyn Jones ar gyfer Cyswllt Ffermio ychydig flynyddoedd yn ôl yn edrych ar statws calch ffermydd Cymru. Yn gyffredinol, roedd prinder mawr o galch, sy'n amharu ar dwf cnydau. Roedd Dennis yn meddwl tybed a oes cysylltiad rhwng ffosffad a statws calch. Dywedodd Ioan fod ffermwyr yn cael eu hannog i greu Cynllun Rheoli Maethynnau ar gyfer y fferm gyfan gyda dadansoddiad pridd i wneud yn siŵr bod y lefelau pH yn iawn. Soniodd Chris Thomas, CNC, fod pH pridd yn llawer rhy isel mewn llawer o achosion ac y gallai wneud gwahaniaeth o bosibl.

22. Soniodd Einir fod Cyswllt Ffermio yn cynnig cymorth gyda Chynlluniau Rheoli Maethynnau drwy Wasanaeth Cynghori Cyswllt Ffermio. Mae Cyswllt Ffermio hefyd yn cynnig clinigau profi pridd am ddim i ffermydd sydd wedi cofrestru gyda nhw.

23. Dywedodd Nichola Salter, CNC, fod Cyswllt Ffermio hefyd yn cynnig cwrs (Meistr Slyri) ar storio a defnyddio tail organig neu slyri a gyflwynir gan Lantra. Er ein bod yn sôn am reoli maethynnau, mae angen inni hefyd feddwl am ymarferoldeb ei storio a'i

ddefnyddio'n ddiogel. Dywedodd Einir fod Cyswllt Ffermio yn cynnig 80% o gyllid ar gyfer cwrs hyfforddi Cyswllt Ffermio: Defnyddio a gwasgaru slyri'n ddiogel.

24. Diolchodd Zoe i Ioan am y cyflwyniad a'r drafodaeth. Mae'n werthfawr iawn i'r grŵp hwn barhau i gyfathrebu a'n helpu i rannu gwybodaeth bwysig â ffermwyr mewn ffordd ymarferol a dealladwy fel y gellir gwneud newidiadau cadarnhaol.

## Eitem 4 Materion yn codi

25. Rhoddodd Zoe gyfle i'r grŵp drafod unrhyw faterion sy'n deillio o gofnodion y cyfarfod blaenorol neu ddogfennau perthnasol.

26. Soniodd Zoe fod canlyniad yr Adolygiad Barnwrol wedi'i gyhoeddi ers cyfarfod diwethaf Is-grŵp WLMF, ond y peth pwysig yw ein bod ni'n gallu symud ymlaen nawr. Dywedodd Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru, mai'r prif bwynt ffocws yw bod angen symud ymlaen a helpu ffermwyr i weithredu'r Rheoliadau. Dywedodd Zoe fod cyfle o hyd i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Mesurau Amgen awgrymu dewisiadau eraill.

    Cyfeiriodd Creighton Harvey, CFF, at rai o'r pwyntiau yn y dyfarniad gan ofyn a yw Llywodraeth Cymru yn ymwybodol a oes hysbysiad o apêl wedi'i roi. Hoffem i bobl weithio gyda'i gilydd i geisio datrys y problemau nawr. Cadarnhaodd Andrew nad oes unrhyw hysbysiad o apêl wedi'i gyflwyno ac mae'r amserlen ar gyfer gwneud hynny bellach wedi dod i ben.

    Soniodd Fraser McAuley, CLA, am gyfarfod a gafodd gyda Swyddogion Llywodraeth Cymru yn dilyn cyhoeddi'r £223 miliwn o gyllid ar gyfer datblygu gwledig dros y ddwy flynedd nesaf, gyda £100 miliwn ar gael yn fuan yn yr wythnosau a'r misoedd nesaf. Roedd rhai o'r cynlluniau'n berthnasol iawn i'r hyn rydym ni'n ei drafod yn y cyfarfodydd hyn. Felly efallai y byddai'n ddefnyddiol eu gwahodd i gyfarfod i siarad â'r grŵp. Mae mwy o wybodaeth yn dod i'r amlwg am sut beth fydd y cynllun hwn ac mae rhywfaint o wybodaeth hynod ddefnyddiol wedi'i chyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru lle mae tabl a'r atodiad yn dangos pryd mae'r datganiadau o ddiddordeb ar agor.

**PG 03 Ebrill: Bronwen Martin, CNC, i egluro cais Fraser McAuley, CLA, am wahodd Swyddogion Llywodraeth Cymru i gyfarfod i drafod y cynllun newydd.**

27. Soniodd Zoe am y ddogfen Datganiad Sefyllfa Polisi Gwlyptiroedd Adeiledig a ddosbarthwyd i'r aelodau. Gofynnwyd i'r grŵp roi sylwadau erbyn dydd Llun 4 Gorffennaf 2022.

28. Cynigiodd Zoe y dylai'r grŵp ystyried gwahodd Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru Cyf (WLBP) i ymuno ag Is-grŵp WLMF fel aelod rheolaidd. Mae WLBP yn rhoi sicrwydd o safonau ffermydd drwy'r Cynllun Gwarant Fferm Da Byw (FAWL) ac mae'r grŵp wedi cael cyflwyniad ganddynt o'r blaen. Gofynnodd Zoe a oedd gan unrhyw un unrhyw wrthwynebiadau i wahodd cynrychiolydd o WLBP i ymuno â'r grŵp hwn? Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau felly cymeradwywyd y cynnig hwn.

29. Rhoddodd Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru, ddiweddariad byr ar lafar ar gynnydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Mesurau Amgen.

30. Atgoffodd Bronwen Martin, CNC, y grŵp fod CNC yn chwilio am randdeiliaid er mwyn helpu i rannu gwybodaeth/cyfathrebiadau gyda'u haelodau am y newidiadau sydd ar y gweill i Eithriadau Gwastraff. Mae gwybodaeth wedi'i dosbarthu'n ddiweddar felly os yw aelodau'n fodlon helpu gyda'r cais hwn, dylent gysylltu â Geraint Richards, CNC, yn uniongyrchol.

***PG 04 Ebrill: Bronwen Martin, CNC, i ailddosbarthu manylion cyswllt Geraint Richards, CNC, mewn perthynas â'r cais i aelodau helpu i rannu cyfathrebiadau am y newidiadau sydd ar y gweill i Eithriadau Gwastraff.***

## Eitem 5 Canllawiau Niwtraliaeth Maethynnau CLA

31. Rhannodd Fraser McAuley, CLA, gyflwyniad yn rhoi trosolwg byr o Nodyn Cyfarwyddyd Niwtraliaeth Maethynnau CLA. Soniodd Fraser fod y ddogfen hon yn dal i gael ei diweddaru wrth i'r sefyllfa newid.

32. Diben cyffredinol y nodyn yw rhoi ychydig o gyd-destun cyfreithiol i aelodau, egluro'r broblem yn rhesymol o fanwl, nodi'r holl ddalgylchoedd allweddol yr effeithir arnynt a'r hyn y mae'n ei olygu i aelodau os ydynt yn ceisio datblygu rhai o'u hadeiladau. Mae'r Nodyn hefyd yn dipyn o ddogfen gyfeirio er mwyn helpu aelodau i ddeall ble allan nhw fynd am ragor o wybodaeth.

33. Mae'r pwnc hwn yn destun pryder mawr iawn i aelodau'r CLA ar hyn o bryd gyda rhai'n dweud nad ydynt yn ymwybodol o'r ACA, neu ddim yn ymwybodol o ofynion niwtraliaeth maethynnau, neu ddim yn ymwybodol o ffosffadau. Felly, er mwyn helpu pawb, mae'r Nodyn Cyfarwyddyd hwn yn trin a thrafod y pwnc ar lefel fwy dealladwy.

34. Nid yw llawer o aelodau CLA yn ymwybodol o'r cefndir nac effaith niwtraliaeth maethynnau neu ofynion ffosffad a nitradau ar ddatblygiad. Felly, mae'n cwmpasu'r cyd-destun cyfreithiol a'r gyfraith achosion oherwydd bod rheoliadau'r UE a nodwyd yn dal i effeithio arnom. Mae hefyd yn esbonio'r rhesymeg y tu ôl i gyfyngu ar faethynnau sy'n mynd i mewn i ACA, yr effaith ar ddatblygiad, pa ddalgylchoedd sydd dan sylw, a rhai camau ymarferol y gall pobl eu cymryd. Mae'r Nodyn hefyd yn disgrifio effaith maethynnau gormodol ar yr amgylchedd, effeithiau etifeddol posibl ffosffadau a'r dosraniad rhwng sectorau gwahanol.

35. Disgrifiodd Fraser rai o'r camau ymarferol sydd gan y Nodyn Cyfarwyddyd ar gyfer aelodau CLA gan gynnwys gwirio gwefannau awdurdodau cynllunio am arweiniad, defnyddio gwefan y Llywodraeth i ganfod a yw datblygiad arfaethedig wedi'i leoli mewn safle cadwraeth natur gwarchodedig neu'n agos at un, defnyddio cyfrifiannell cyllideb niwtraliaeth maethynnau a sicrhau camau lliniaru.

36. Soniodd Fraser am rai o'r camau nesaf gan gynnwys aros am y canllawiau diweddaraf gan awdurdodau lleol / CNC, cofnodi nifer y datblygiadau sydd wedi'u gohirio gan aelodau CLA, rhannu gwybodaeth lle y bo'n briodol o grwpiau'r WLMF a diweddaru Nodyn Cyfarwyddyd CLA.

37. Soniodd Fraser fod y Nodyn Cyfarwyddyd hwn yn cael ei ddiweddaru'n barhaus ac awgrymodd y gellid ailedrych ar hyn mewn cyfarfod ymhen ychydig fisoedd pan fydd mwy o eglurder ynghyd â'r wybodaeth ddiweddaraf am y sylfaen dystiolaeth gan aelodau'r CLA neu gynnydd ar lawr gwlad.

***PG 05 Ebrill: Bronwen Martin, CNC, i ddosbarthu copi o gyflwyniad Fraser McAuley, CLA, am Nodyn Cyfarwyddyd Niwtraliaeth Maethynnau CLA.***

38. Diolchodd Zoe i Fraser am rannu trosolwg o Nodyn Cyfarwyddyd CLA. Mae hon yn enghraifft ymarferol o gyfleu gwybodaeth glir i ffermwyr.

## Eitem 6 Dogfen Cwestiynau Cyffredin Tenantir

39. Mae Matthew Walters, Llywodraeth Cymru, wedi ailddosbarthu'r ddogfen Cwestiynau Cyffredin ddrafft ar gyfer tenantiroedd sy'n gysylltiedig â Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am sylwadau pellach ar y ddogfen ddrafft hon erbyn dydd Llun 9 Mai 2022.

40. Awgrymodd Zoe fod cyfle i edrych ar effaith a maint hyn a nododd fod tua 30% o ffermydd yng Nghymru yn rhai tenant ond faint o'r rhain fydd yn wynebu heriau posib gyda'u Landlordiaid.

41. Dywedodd Dennis Matheson, TFA, y gallai hyn effeithio ar unrhyw ffermwr tenant sy'n cadw gwartheg. O ran y ddogfen Cwestiynau Cyffredin, mae bron i 12 mis ers i'r drafft gael ei ddosbarthu am y tro cyntaf i gael sylwadau. Awgrymodd Dennis fod y ddogfen yn sôn am fwy o'r problemau ond nad yw'n cynnig atebion. Gwnaeth TFA Cymru nifer o awgrymiadau ar gyfer gwella'r ddogfen ddrafft wreiddiol ond ni weithredwyd yr un ohonynt. Aeth Dennis ymlaen i ddisgrifio rhai o'r problemau a'r heriau sy'n wynebu ffermwyr tenant a phorwyr.

42. Dywedodd Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru, fod hwn yn faes heriol i Lywodraeth Cymru gan fod cytundebau tenantiaeth yn gytundebau unigol, felly mae'n anodd iawn darparu cyngor ac arweiniad sy'n cwmpasu'r ystod o bosibiliadau. O ran y cwestiwn cynharach am faint o fusnesau fferm sydd wedi'u heffeithio, dywedodd Andrew fod hwn yn faes heriol arall ar gyfer gwneud asesiad priodol oherwydd bod ystod eang o wahanol fathau o denantiaethau.

43. Dywedodd Fraser McAuley, CLA, ei fod wedi trosglwyddo'r ddogfen i gydweithwyr sydd fel arfer yn delio â thenantiaethau fel y gallant roi sylwadau.

44. Dywedodd Bernard Griffiths, FUW, fod y sefyllfa hon wedi digwydd oherwydd bod y Rheoliadau hyn yn gwrthdaro â chyfraith tenantiaid a'r ffaith mai dim ond canllawiau yw'r ddogfen hon ac na ddaw unrhyw atebion o'r ddogfen ganllaw honno. Awgrymodd Bernard y gallai Llywodraeth Cymru fod wedi mynd i'r afael â phethau fel y cyfnodau pontio i denantiaid er mwyn cael ychydig mwy o hyblygrwydd o gymharu â ffermwyr sy’n berchen ar eu ffermydd. Roedd Bernard yn cofio edrych ar ddata yr oedd Chris Thomas wedi'i anfon ato ychydig fisoedd yn ôl, lle nad yw 14% ychwanegol o ffermydd tenant yn cyrraedd y capasiti storio pedwar mis ar gyfer slyri a'r un peth ar gyfer capasiti storio pum mis. Felly, ar wahân i broblemau o fewn y gyfraith ei hun (un gyfraith sy'n gwrthdaro â'r llall) mae yna hefyd set benodol o amgylchiadau sy'n wynebu ffermwyr tenant.

45. Gofynnodd Zoe i'r aelodau adolygu'r ddogfen a hefyd awgrymu atebion ymarferol sy'n rhoi cyfle gwell i ffermwyr tenant.

46. Awgrymodd Bob Vaughan, CNC, y gallai hyn fod yn rhywbeth i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Mesurau Amgen ymchwilio iddo. Dywedodd Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru (Cadeirydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Mesurau Amgen) nad yw'n briodol mewn gwirionedd i'r Grŵp fynd i'r afael â hyn oherwydd os yw Llywodraeth Cymru am gyflwyno rheoliadau, dylent ystyried goblygiadau llawn y rheoliadau hynny a sut maent yn effeithio ar bobl. Yn y pen draw, mae problem sylfaenol lle mae dwy system gyfreithiol sy'n gwrthdaro ac ni fydd yn hawdd datrys hynny.

47. Diolchodd Dennis i'r grŵp am ystyried y broblem hon gan fod y Rheoliadau'n effeithio ar bob ffermwr mewn gwirionedd.

## Eitem 7 Diweddariadau cyffredinol

48. Dyma gyfle i aelodau rannu'r hyn y mae eu sefydliadau yn ei wneud yn ystod yr wythnosau a'r misoedd nesaf ac awgrymu cynnwys ar gyfer Cylchlythyr Is-grŵp WLMF.

49. Soniodd Zoe fod Digwyddiad Tir Glas Sioe Frenhinol Cymru 2022 yn cael ei gynnal yng Ngholeg Cambria Llysfasi ar 12 Mai a bydd gan CNC stondin yn y digwyddiad. Soniodd Zoe hefyd am Sioe Frenhinol Cymru 2022 (y Sioe Fawr) a gofynnodd i'r aelodau a yw eu sefydliadau wedi gwneud cynlluniau ar gyfer y sioe eto ac a ydynt wedi dewis thema neu drefnu unrhyw siaradwyr a sgyrsiau.

50. Dywedodd Charlotte Priddy, AHDB, mai'r cyfarfod hwn fydd ei chyfarfod olaf gan ei bod yn gadael i fynd i weithio i Maternity Action. Diolchodd Charlotte i Zoe a'r grŵp am y gefnogaeth dros y blynyddoedd diwethaf. Soniodd Charlotte y bydd ei chydweithiwr David Ball yn mynychu'r cyfarfodydd o hyn ymlaen. Diolchodd Zoe i Charlotte am ei mewnbwn, ei chefnogaeth a'i chyfraniad dros y blynyddoedd diwethaf a dymuno pob hwyl iddi yn ei swydd newydd.

51. Cadarnhaodd Einir Williams, Cyswllt Ffermio, y bydd gan Cyswllt Ffermio bresenoldeb yn y Digwyddiad Tir Glas hefyd ac y bydd staff yno i ateb cwestiynau ffermwyr. Hefyd, bydd gan Cyswllt Ffermio eu stondinau arferol yn y Sioe Fawr yn ogystal â chydweithio â Llywodraeth Cymru. O ran Cylchlythyr Is-grŵp WLMF, dywedodd Einir y byddai'n dda cynnwys gwybodaeth am yr hyn sydd ganddynt mewn golwg mewn perthynas â'r Cynllun Cyfathrebu ar gyfer y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol.

52. Dywedodd Bernard fod Undeb Amaethwyr Cymru wedi cyflwyno ymateb i ymgynghoriad Defra ar olrhain gwastraff yn ddigidol yn orfodol. Mae hyn yn edrych ar wastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus gan y cynhyrchydd, drwy'r casglwr ac i'r prosesydd. Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi bod yn gweithio gyda CNC dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ar yr adolygiad o saethu a dal adar gwyllt, bydd trwyddedau cyffredinol newydd yn dod allan ar 1 Gorffennaf. Dywedodd Bernard y bu siom na fydd Trwydded Gyffredinol 004 'Trwydded i ladd neu gymryd rhai adar gwyllt at ddibenion cadwraeth adar gwyllt' bellach ond yn gallu rheoli brain tyddyn. Felly, bydd adar fel Pïod, nad ydynt ar y rhestr gadwraeth, bellach yn cael eu gwarchod ac mae perygl gwirioneddol y bydd adar cân yn dioddef o ganlyniad. Mae Undeb Amaethwyr Cymru hefyd wedi mynychu Is-grŵp WLMF ar Ddarpariaeth Coedwigaeth sy'n edrych ar opsiynau i ddiwygio, dirymu ac atal trwyddedau cwympo coed. Mae llawer o waith yn mynd rhagddo o fewn Undeb Amaethwyr Cymru ar effeithiau rhyfel Wcráin o safbwynt costau bwyd, gwrtaith ac ati.

53. Dywedodd Marc Williams, CNC, y bydd gan y corff stondin yn y Sioe Fawr a thema eleni yw 'Y Cylch Dŵr' a bydd yn edrych ar ddŵr o'r tarddle i'r geg. Mae trafodaethau ar droed i benderfynu beth fydd cynnwys y stondin ond mae rhai awgrymiadau'n cynnwys enghreifftiau o'r broses monitro dŵr, samplu infertebratau, dangosyddion ansawdd dŵr da, llifogydd, dyfroedd arfordirol, a rhywbeth rhyngweithiol i blant. Soniodd Marc ei bod yn debygol y bydd rhai sgyrsiau ar y stondin.

54. Dywedodd Zoe y byddai'n dda cael rhai negeseuon allweddol ar gyfer ffermwyr y gall y grŵp hwn eu cefnogi. Awgrymodd Marc, os oes gan aelodau unrhyw sgyrsiau ar y gweill neu unrhyw negeseuon allweddol ar gyfer y Sioe Fawr, yna gellir cynnwys y manylion yn y cylchlythyr i'w hyrwyddo.

55. Dywedodd Fraser fod CLA yn dal i gynllunio eu rhaglen ar gyfer y Sioe Fawr ac y dylai allu rhoi mwy o fanylion yn y cyfarfod nesaf.

56. Dywedodd Dennis ei fod yn gobeithio mynychu'r Digwyddiad Tir Glas. Bydd TFA Cymru hefyd yn y Sioe Fawr a bydd yn trefnu ambell i gyfarfod. Soniodd Dennis fod TFA Cymru wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar amryw o bethau gan gynnwys Coedwig Genedlaethol Cymru, ac maent yn gwrthwynebu'r raddfa mewn golwg. Dywedodd Bob fod un o'i dimau yn gofalu am waith Creu Coetir Glastir i Lywodraeth Cymru a CNC yn gwneud y gwaith dilysu ac mae'r ddwy rownd ddiwethaf bron wedi cyrraedd 2000 hectar y flwyddyn, felly mae'r lefelau wedi cynyddu'n aruthrol ers dwy neu dair blynedd yn ôl. Hefyd, mae TFA Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gael mynediad i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd i denantiaid.

## Eitem 8 Unrhyw fater arall

57. Cynhelir cyfarfod nesaf Is-grŵp WLMF ddydd Llun 16 Mai 2022 wyneb yn wyneb yn Sefydliad Gwy ac Wysg. Bydd mwy o fanylion ar gael cyn bo hir.

58. Soniodd Bronwen Martin, CNC, fod un o'i chydweithwyr Ieuan Davies am roi gwybod i'r grŵp hwn ei fod yn cynllunio Seminar Adfer Afonydd. Bydd hwn yn ddigwyddiad a gynhelir mewn dau gam, gyda'r naill sesiwn yn y Gogledd a'r llall yn y De tua chanol i ddiwedd Mehefin. Ar hyn o bryd, mae Ieuan yn chwilio am bartïon â diddordeb i fynychu'r digwyddiad a chyflwyno gwybodaeth am ymchwil neu brosiectau o bosib. Mae'n chwilio am randdeiliaid i gymryd rhan. Dywedodd Bronwen y byddai'n dosbarthu mwy o wybodaeth a manylion i'r aelodau.

***PG 06 Ebrill: Bronwen Martin, CNC, i ddosbarthu mwy o wybodaeth am y Seminar Adfer Afonydd.***

59. Soniodd Chris Thomas, CNC fod y Prosiect Llaeth wedi cael estyniad swyddogol hyd at fis Mawrth 2023 a bod cydweithwyr yn gweithio ar gynllun ar gyfer wedi hynny. Dywedodd Chris ei fod yn gadael y Prosiect Llaeth am resymau tebyg i staff eraill sy'n gysylltiedig natur fyrdymor y contractau. Chris fydd yr Uwchswyddog Rheoli Tir yn y Prosiect Pedair Afon LIFE. Awgrymodd Chris y gallai fod yn dda pe bai ef neu ei Arweinydd Tîm newydd Susie Kinghan yn mynychu'r cyfarfodydd hyn yn y dyfodol. Hefyd, dywedodd Chris y gallant roi cyflwyniad i'r grŵp am waith y Prosiect Pedair Afon LIFE.

***PG 07 Ebrill: Chris Thomas, CNC, i roi cyflwyniad ar y Prosiect Pedair Afon LIFE.***

Dywedodd Zoe ei bod yn destun siom bod pobl yn symud yn rhy gyflym drwy'r Prosiect Llaeth a bod cynllun tymor hwy yn bwysig iawn. Cytunodd Creighton gan dynnu sylw at drosiant staff uchel y Prosiect Llaeth. Gofynnodd Creighton i Chris pa ganran o aelodau staff y Prosiect Llaeth sydd yn eu swyddi ar hyn o bryd. Dywedodd Chris fod tua 40% o'r swyddi wedi eu llenwi ar hyn o bryd. Gofynnodd Creighton beth oedd yr amserlen arfaethedig ar gyfer llenwi'r swyddi hynny. Dywedodd Chris fod CNC yn ceisio gorffen recriwtio i'r prosiect dros y misoedd nesaf, ond dim ond tan fis Mawrth 2023 y gellir gwarantu'r swyddi, felly mae hynny'n cyfyngu ar ddiddordeb y rhai a fydd yn gwneud cais. Gofynnodd Creighton am faint y mae'r aelod sydd wedi gwasanaethau'r prosiect hiraf wedi bod yn ei swydd. Dywedodd Chris tua dwy flynedd mae'n debyg, gyda dau arall mewn sefyllfa debyg. Mae un swyddog llaeth wrthi ers rhyw ddeufis ac un arall newydd ddechrau yn y Canolbarth hefyd. Felly mae hynny'n galonogol. Dywedodd Zoe ei bod yn deall rhwystredigaeth Creighton a bod hyn yn rhywbeth sy'n cael ei godi'n rheolaidd yng nghyfarfodydd Tîm Gweithredol CNC. Mae Bwrdd CNC hefyd yn ymwybodol iawn o'r heriau sy'n gysylltiedig â chyllid tymor byr gan Lywodraeth Cymru.

Dywedodd Nichola Salter, CNC, er bod yr Uwch Swyddog Llaeth wedi bod yn y swydd hon am gyfnod byr, mae'n Swyddog Amgylchedd profiadol iawn mewn gwirionedd ac yn dod â'i brofiad helaeth i'r prosiect hwn. Diolchodd Creighton i Nichola ac eglurodd mai ei bryder oedd pan ddechreuodd hyn yn 2018, dywedwyd wrthym y byddai'r bobl newydd sy'n dod i mewn yn cael ffermydd cynyddol anodd o ran seilwaith a phersonoliaethau. Felly dros amser, byddai'r profiad yn cynyddu o fewn y prosiect ac yn y pen draw byddai gennych brosiect sydd wedi'i staffio'n llawn gan bobl brofiadol iawn. Yr hyn sy'n rhwystredig, yn ôl Creighton, yw cyn gynted ag y cyhoeddir bod rhywun yn cymryd rôl uwch o fewn y prosiect, rydym wedyn yn clywed eu bod yn gadael. Mae hynny'n peri pryder mawr, yn enwedig gan fod mwy a mwy o adroddiadau am ffermydd sydd wedi'u hardystio fel rhai sy'n cydymffurfio â'r Rheoliadau newydd ond o edrych arnynt drachefn, nid yw hynny'n wir. Ni allai Nichola wneud sylwadau ar y datganiad diwethaf ond mae llawer yn rhannu'r rhwystredigaeth hon oherwydd yn aml pan fydd y Swyddogion Prosiect Llaeth yn gadael, yna mae'n rhaid i Dimau'r Amgylchedd fynd i'r afael â'r gwaith hwn ynghyd â'u holl waith arall ac mae'n anodd gwneud gwaith na fuont yn rhan ohono ers y cychwyn cyntaf. Felly ydy, mae'n broblem, ac mae CNC yn ymwybodol ohoni'n fewnol. Awgrymodd Creighton y byddai'n braf i ffermwyr feithrin perthynas â'r Swyddogion Llaeth, ond nad ydynt yn aros yn ddigon hir i hynny ddigwydd.

O ran y pwyntiau a godwyd am ffermwyr sy'n cydymffurfio/nad ydynt yn cydymffurfio, gofynnodd Zoe i Creighton a allai rannu'r wybodaeth am yr adroddiadau y mae wedi'u derbyn. Dywedodd Creighton fod anawsterau oherwydd cyfrinachedd, felly efallai y bydd yn cael gwybodaeth ond na all ei hailadrodd a rhaid iddi fod yn anecdotaidd.

## Diwedd y cyfarfod